Adran Gwaith a Phensiynau

# Budd-dal Anabledd Anafiadau Diwydiannol

**Mae gennym lawer o ffyrdd y gallwn gyfathrebu â chi**

Os hoffech braille, Iaith Arwyddion Prydain, dolen glyw, cyfieithiadau, print bras, sain neu rywbeth arall, ffoniwch ni a dywedwch wrthym pa un sydd ei angen arnoch.

Os ydych yn ffonio o'r Deyrnas Unedig (DU), ffoniwch **0800 121 8379** neu ffôn testun **0800 169 0314**.

Os ydych yn ffonio o'r tu allan i'r DU, ffoniwch **+44 (0)191 206 9390**.

Os ydych yn byw yng Nghymru ac eisiau'r nodiadau hyn a'r ffurflen yn Gymraeg, ffoniwch ni ar **0800 328 1744**.

Mae galwadau i rifau 0800 am ddim o linellau tir a ffonau symudol.

**BI100AW Notes** 01/24

# Cynnwys

**Beth sydd angen i chi ei wneud....... 3**
Os oes angen help arnoch i lenwi ffurflen....... 3

**Beth yw Budd-dal Anabledd Anafiadau Diwydiannol?....... 4**
Rhoi gwybod am y ddamwain i'ch cyflogwr neu hyfforddwr....... 4
A oes gennyf hawl i Fudd-dal Anabledd Anafiadau Diwydiannol?....... 4
Effeithiau ar fudd-daliadau eraill....... 5

**Pryd i wneud cais....... 6**
Sut i wneud cais....... 6
Cymorth i lenwi'r ffurflen....... 6
Llofnodi'r ffurflen ar ran rhywun arall....... 7
Cwblhau'r ffurflen ar ran rhywun oherwydd ei fod wedi marw....... 7

**Beth sy'n digwydd ar ôl i ni gael eich cais am fudd-dal....... 8**

**Sut mae DWP yn casglu ac yn defnyddio gwybodaeth....... 9**

**Arian arall y gallech ei gael....... 10**
Lwfans Enillion Is....... 10
Lwfans Gweini Cyson....... 10
Lwfans Anabledd Eithriadol o Ddifrifol....... 10

**Beth os ydych yn byw y tu allan i'r DU, neu os digwyddodd y ddamwain y tu allan i'r DU?....... 10**

**Ble i gael cymorth a chyngor am ddamweiniau diwydiannol....... 11**

**Manylion cyswllt Canolfan Budd-dal Anabledd Anafiadau Diwydiannol Barnsley**
Rhif ffôn....... 12
Cost galwadau....... 12

**Trin pobl yn deg**

Rydym wedi ymrwymo i Ddeddf Cydreaddoldeb 2010 ac i drin pobl yn deg. I gael gwybod mwy am y gyfraith hon, chwiliwch am 'Cydraddoldeb' yn **www.gov.uk**

Nodiadau ynghylch gwneud cais am fudd-dal am ddamwain yn y gwaith neu tra ar gynllun neu gwrs hyfforddiant cyflogaeth cymeradwy. Bydd y nodiadau hyn yn rhoi gwybodaeth am:
- beth yw Budd-dal Anabledd Anafiadau Diwydiannol?
- rhoi gwybod i'ch cyflogwr am y ddamwain
- a oes gennyf hawl i Fudd-dal Anabledd Anafiadau Diwydiannol?

# Beth sydd angen i chi ei wneud

Llenwch y ffurflen gais a'i hanfon yn ôl i'r cyfeiriad sydd ar ddiwedd y nodiadau hyn.

Darllenwch y nodiadau hyn cyn i chi lenwi'r ffurflen gais.

Gwnewch yn siŵr eich bod yn ateb pob cwestiwn yn llawn.

Os ydych yn llenwi'r ffurflen hon â beiro, ysgrifennwch mewn inc du a defnyddiwch BRIF LYTHRENNAU.

Pan fyddwch yn anfon y ffurflen yn ôl, gwnewch yn siŵr eich bod yn:
- cwblhau'r Caniatâd yn **Rhan 2**
- llofnodi'r Datganiad yn **Rhan 12**
- anfon unrhyw slipiau cyflog atom ar gyfer cyfnod eich damwain
- anfon copi o'r adroddiad damwain/Llyfr Damweiniau atom (os yw hwn gennych).
- anfon unrhyw adroddiadau meddygol neu lythyrau a allai fod gennych i gefnogi'ch cais. Gallai'r rhain fod gan eich Ymgynghorydd, Meddyg Teulu neu weithiwr iechyd proffesiynol arall.

Dyma'r mathau o ganlyniadau profion meddygol y gallech fod am eu cynnwys mewn perthynas â'ch anabledd o ganlyniad i'ch damwain:
- canlyniadau'r sganiau ond nid y sganiau eu hunain
- awdioleg
- canlyniadau pelydrau-x, ond nid y pelydrau-x eu hunain
- Adroddiadau ymgynghorwyr.

## Os oes angen help arnoch i lenwi'r ffurflen

Gallwch ofyn i ffrind, perthynas, gofalwr neu weithiwr cymorth eich helpu. Gallwch hefyd ein ffonio ar **0800 121 8379** am gymorth i gwblhau'r ffurflen dros y ffôn. Peidiwch â mynd i'ch swyddfa Canolfan Byd Gwaith leol.

# Beth yw Budd-dal Anabledd Anafiadau Diwydiannol?

Mae Budd-dal Anabledd Anafiadau Diwydiannol yn daliad i bobl sy'n anabl o ganlyniad i ddamwain, afiechyd neu ddigwyddiad a ddigwyddodd yn y gwaith, mewn cysylltiad â gwaith, neu tra ar gynllun neu gwrs hyfforddiant cyflogaeth cymeradwy.

Rydym yn defnyddio damwain i olygu unrhyw ddigwyddiad neu gyfres o ddigwyddiadau yn y gwaith nad oeddent yn fwriadol ac a arweiniodd at anaf personol.

Os ydych am wneud cais am fudd-dal ar gyfer afiechyd, bydd angen i chi lenwi ffurflen BI100PD 'Budd-dal Anabledd Anafiadau Diwydiannol ar gyfer clefyd diwydiannol rhagnodedig'. Gallwch ei gael trwy ein ffonio ar **0800 121 8379**. Gallwch ddod o hyd i'n manylion cyswllt ar ddiwedd y nodiadau hyn. Gallwch hefyd lawrlwytho'r ffurflen a'r nodiadau i'ch helpu i'w llenwi, chwiliwch am 'BI100PD' ar **www.gov.uk**

## Rhoi gwybod am y ddamwain i'ch cyflogwr neu hyfforddwr

Os byddwch yn cael damwain yn y gwaith, dywedwch wrth eich cyflogwr, hyfforddwr neu rywun arall mewn awdurdod ar unwaith, hyd yn oed os nad yw'r ddamwain yn ymddangos yn ddifrifol ar y pryd.

Darparwch gopi o'r adroddiad damwain gyda'ch cais. Dylech ofyn am gopi o hwn ar gyfer eich cofnodion. Bydd angen hwn arnoch ar gyfer eich cais am Fudd-dal Anabledd Anafiadau Diwydiannol.

## A oes gennyf hawl i Fudd-dal Anabledd Anafiadau Diwydiannol?

Efallai y bydd gennych hawl i'r budd-dal os ydych yn anabl oherwydd damwain yn y gwaith. Mae rhaid bod y ddamwain wedi digwydd oherwydd eich gwaith neu hyfforddiant, ac mae rhaid ei bod wedi digwydd yn y DU fel arfer.

Ni allwch gael Budd-dal Anabledd Anafiadau Diwydiannol os oeddech yn hunangyflogedig pan ddigwyddodd y ddamwain.

Pan fyddwn yn gofyn am fanylion eich cyflogaeth mae angen i ni wybod pryd yr oeddech yn gweithio i'r cwmni mewn gwirionedd. Os oeddech i ffwrdd yn sâl ar ddiwedd eich cyfnod cyflogaeth, dylai hyn ddangos y dyddiad diwethaf y gwnaethoch unrhyw waith i'r cwmni.

Os nad ydych yn siŵr a allwch hawlio, cysylltwch â ni am gymorth drwy ffonio **0800 121 8379**. Gallwch ddod o hyd i'n manylion cyswllt ar ddiwedd y nodiadau hyn.

## Effeithiau ar fudd-daliadau eraill

Ni fydd Budd-dal Anabledd Anafiadau Diwydiannol yn effeithio ar y budd-daliadau canlynol:

- Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn seiliedig ar gyfraniadau
- Budd-dal Analluogrwydd
- Lwfans Ceisio Gwaith yn seiliedig ar gyfraniadau
- Taliad Annibyniaeth Personol
- Pensiwn y Wladwriaeth.

Bydd Budd-dal Anabledd Anafiadau Diwydiannol yn effeithio ar y budd-daliadau canlynol os ydych chi neu'ch partner yn eu hawlio:

- Credyd Cynhwysol
- Cymhorthdal Incwm
- Lwfans Ceisio Gwaith yn seiliedig ar incwm
- Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn seiliedig ar incwm
- Credyd Pensiwn
- Budd-dal Tai*
- Gostyngiad Treth Cyngor*
- Credyd Treth Gwaith.

*Cysylltwch â'ch cyngor lleol am ragor o wybodaeth

# Pryd i wneud cais

Os byddwch yn dod yn anabl oherwydd damwain, gwnewch gais am Fudd-dal Anabledd Anafiadau Diwydiannol ar unwaith. Ond fel arfer ni fydd gennych hawl i fudd-dal am 90 diwrnod ar ôl dyddiad y ddamwain. Os byddwch yn oedi efallai y byddwch yn colli rhywfaint o fudd-dal.

## Sut i wneud cais

I wneud cais am Fudd-dal Anabledd Anafiadau Diwydiannol bydd angen i chi ateb pob cwestiwn ar y ffurflen gan sicrhau bod y caniatâd yn **Rhan 2** wedi ei gwblhau'n llawn a'ch bod yn llofnodi'r ffurflen yn **Rhan 12**.

Anfonwch y ffurflen hon yn ôl atom ar unwaith. Os byddwch yn oedi, gallech golli arian.

Gellir talu unrhyw fudd-dal y gallwch ei gael oherwydd y cais hwn yn gyflymach os byddwch yn ateb yr holl gwestiynau ar y ffurflen hon sy'n berthnasol i chi a'ch partner, os oes gennych un.

Rydym yn defnyddio partner i olygu:
- person rydych yn byw gydag ef/hi sy'n ŵr, gwraig neu'n bartner sifil i chi, neu
- person rydych yn byw gydag ef/hi fel petaech yn bâr priod.

Yn **Rhan 4** mae'n gofyn pryd y buoch yn gweithio i'ch cyflogwr. Mae angen i ni wybod y dyddiadau pan oeddech yn mynychu'r gweithle ac yn gweithio yno. Peidiwch â chynnwys unrhyw gyfnodau pan oeddech yn gyflogedig ond nid oeddech yn gweithio, er enghraifft os oeddech i ffwrdd yn sâl.

## Cymorth i lenwi'r ffurflen

Os hoffech gael help i lenwi'r ffurflen gais neu unrhyw ran ohoni, cysylltwch â ni drwy ffonio **0800 121 8379**. Byddwn yn gallu mynd drwy'r ffurflen â chi dros y ffôn neu gallwn lenwi ffurflen gais ar eich rhan. Os byddwn yn llenwi'r ffurflen gais ar eich rhan, byddwn yn ei hanfon atoch. Yna gallwch ei gwirio, ei llofnodi a'i hanfon yn ôl atom.

## Llofnodi'r ffurflen ar ran rhywun arall

Dylai'r ffurflen gais gael ei llofnodi gan rywun arall dim ond os:
- nad yw'r person sy'n gwneud y cais yn gallu gweithredu ar ei ran ei hun yn feddyliol, ac
- mae rhywun yn fodlon gweithredu ar ei ran ym mhob mater nawdd cymdeithasol, gan gynnwys dweud wrthym am unrhyw newid yn eu hamgylchiadau a chasglu arian ar eu cyfer.

Gelwir rhywun a dderbynnir gan yr Adran i weithredu ar ran person yn benodai.

Fel arfer ni fydd angen rhywun i weithredu ar ran person ag anabledd corfforol ond sy'n abl yn feddyliol.

Os bydd rhywun yn gwneud cais i weithredu ar ran person byddwn yn:
- trefnu ymweliad â'r:
  - person sy'n gwneud y cais, a'r
  - person sy'n gwneud cais i weithredu ar ei ran, a
- penderfynu a oes angen rhywun ar y person i weithredu ar ei ran, ac
- egluro'r cyfrifoldebau y byddai'r sawl a benodir yn eu cymryd.

Ni fyddwn yn talu unrhyw fudd-dal nes bod y broses hon wedi ei chwblhau.

Os oes gan rywun atwrneiaeth neu awdurdod cyfreithiol i weithredu ar ran y sawl sy'n gwneud y cais, mae rhaid i'r person sydd ag atwrneiaeth neu awdurdod cyfreithiol:

- llofnodi'r ffurflen gais, ac

- anfon copi o'r awdurdod cyfreithiol gyda'r ffurflen gais.

Mae rhaid i'r copi o'r awdurdod cyfreithiol gael ei ardystio a'i lofnodi gan gyfreithiwr fel copi cywir.

## Cwblhau'r ffurflen ar ran rhywun oherwydd ei fod wedi marw

Os ydych yn llenwi'r ffurflen ar ran rhywun sydd wedi marw, gwnewch yn siŵr eich bod hefyd yn anfon copi o'r dystysgrif marwolaeth atom gyda'r ffurflen gais.

# Beth fydd yn digwydd ar ôl i ni gael eich cais am fudd-dal

Byddwn yn cysylltu â chi ac yn dweud wrthych ein bod wedi cael eich cais. Bydd swyddog gwneud penderfyniadau yn edrych ar eich cais.

Mae swyddog gwneud penderfyniadau yn bobl sy'n penderfynu:
- os yw'r gyfraith yn dweud bod eich damwain yn ddamwain ddiwydiannol
- os yw'r gyfraith yn dweud bod gennych hawl i fudd-dal ai peidio
- faint o fudd-dal y mae'r gyfraith yn dweud bod gennych hawl iddo.

I helpu'r swyddog penderfyniadau i benderfynu ar eich cais, efallai y bydd angen rhagor o wybodaeth arnom. Efallai y bydd angen i ni ofyn i bobl am eich cais. Er enghraifft, efallai y byddwn yn cysylltu ag unrhyw gyflogwr, meddyg neu ysbyty yr ydych wedi dweud wrthym amdanynt yn y ffurflen gais.

Os bydd y swyddog penderfyniadau yn penderfynu mai damwain ddiwydiannol oedd eich damwain, efallai y byddwn yn gofyn i chi fynd am asesiad. Byddwn yn cysylltu â chi ac yn dweud wrthych ble a phryd i fynd am yr asesiad. Os nad ydych yn ffit i deithio neu os ydych yn yr ysbyty, efallai y byddwn yn gofyn i'r meddyg neu'r gweithiwr gofal iechyd proffesiynol ddod atoch. Rhowch fanylion llawn pam fod angen ymweliad cartref arnoch, ac anfonwch unrhyw dystiolaeth feddygol sydd gennych eisoes i gefnogi'r cais hwn. Peidiwch â gofyn na thalu am dystiolaeth newydd.

Bydd y meddyg neu weithiwr gofal iechyd proffesiynol yn rhoi gwybodaeth i'r swyddog gwneud penderfyniadau am y ddamwain, sut mae hyn wedi effeithio arnoch a pha mor hir y mae'r effeithiau hyn yn debygol o barhau.

Dywedwch wrthym am unrhyw ddyddiadau ac amseroedd efallai na fyddwch yn gallu mynd am asesiad yn ystod y chwe mis nesaf. Er enghraifft, gwyliau ac apwyntiadau ysbyty. Rhowch fanylion llawn i ni yng nghwestiwn 73 yn Rhan 8 o'r ffurflen gais. Os na fyddwch yn dod i apwyntiad ac nad ydych yn darparu oherwydd rheswm da, gallech ohirio eich cais neu gau eich cais am fudd-dal.

Os gallwch gael Budd-dal Anabledd Anafiadau Diwydiannol, byddwn yn cysylltu â chi ac yn dweud wrthych:
- faint o arian y gallwch ei gael a sut y gwnaethom ein penderfyniad
- mwy am y budd a'r penderfyniad.

Os na allwch gael Budd-dal Anabledd Anafiadau Diwydiannol, byddwn yn cysylltu â chi ac yn dweud wrthych beth yw'r rheswm a beth i'w wneud os ydych yn anghytuno.

# Sut mae DWP yn casglu ac yn defnyddio gwybodaeth

Pan fyddwn yn casglu gwybodaeth amdanoch efallai y byddwn yn ei defnyddio at unrhyw un o'n dibenion. Mae'r rhain yn cynnwys:

- budd-daliadau a lwfansau nawdd cymdeithasol
- cynhaliaeth plant
- cyflogaeth a hyfforddiant
- ymchwilio ac erlyn troseddau credydau treth
- polisi pensiynau preifat, a
- cynllunio ar gyfer ymddeoliad.

Mae'n bosibl y byddwn yn cael gwybodaeth amdanoch gan bartïon eraill at unrhyw un o'n dibenion fel y mae'r gyfraith yn caniatáu i wirio'r wybodaeth a ddarperir gennych a gwella ein gwasanaethau. Mae'n bosibl y byddwn yn rhoi gwybodaeth amdanoch i sefydliadau eraill fel y mae'r gyfraith yn caniatáu, er enghraifft i amddiffyn rhag trosedd.

I gael gwybod mwy am ein dibenion, sut rydym yn defnyddio gwybodaeth bersonol at y dibenion hynny a'ch hawliau gwybodaeth, gan gynnwys sut i ofyn am gopi o'ch gwybodaeth, chwiliwch am Siarter Gwybodaeth Bersonol yr Adran Gwaith a Phensiynau ar **www.gov.uk**

# Arian arall y gallech ei gael

## Lwfans Enillion Is

Os na allwch wneud eich swydd arferol neu waith arall â chyflog tebyg oherwydd damwain a ddigwyddodd cyn 1 Hydref 1990, efallai y byddwch yn gallu gwneud cais am Lwfans Enillion Is.

Os hoffech gwneud cais am Lwfans Enillion Is, cysylltwch â ni gan ddefnyddio'r manylion a ddangosir ar ddiwedd y ffurflen hon.

## Lwfans Gweini Cyson

Os ydych yn cael Budd-dal Anabledd Anafiadau Diwydiannol ar gyfradd o 100% ac angen gofal a sylw dyddiol, efallai y gallwch gael Lwfans Gweini Cyson. Bydd Lwfans Gweini Cyson yn cael ei ystyried yn awtomatig ar adeg eich asesiad.

Os nad oes gennych unrhyw anghenion gweini ar adeg eich dyfarniad Budd-dal Anabledd Anafiadau Diwydiannol, ond bod eich cyflwr yn gwaethygu a bod angen presenoldeb cyson yn ddiweddarach, bydd angen i chi wneud cais am Lwfans Gweini Cyson gan ddefnyddio ffurflen **BI107**. Gallwch gael y ffurflen o ganolfan Budd-dal Anabledd Anafiadau Diwydiannol. Mae'r manylion cyswllt ar ddiwedd y nodiadau hyn. **Cofiwch** – dim ond os ydych eisoes yn cael Budd-dal Anabledd Anafiadadau Diwydiannol ar y gyfradd 100% y gallwch wneud cais am Lwfans Gweini Cyson.

## Lwfans Anabledd Difrifol Eithriadol

Os ydych yn cael un o'r ddwy gyfradd Lwfans Gweini Cyson uwch a bod angen gofal a sylw parhaol a chyson arnoch, cewch eich ystyried yn awtomatig ar gyfer hawl i Lwfans Anabledd Difrifol Eithriadol.

I gael rhagor o wybodaeth am fudd-daliadau y gallech fod â hawl iddynt, ewch i **www.gov.uk**

# Beth os ydych yn byw y tu allan i'r DU, neu os digwyddodd y ddamwain y tu allan i'r DU?

Fel arfer mae rhaid i'r ddamwain fod wedi digwydd yn y DU. Ond mae rhai eithriadau i'r rheol hon.

Os ydych yn byw y tu allan i'r DU, neu os digwyddodd y ddamwain y tu allan i'r DU, cysylltwch â'r Ganolfan Bensiynau Ryngwladol am gyngor yn:

International Pension Centre
The Pension Service 11
Mail Handling Site A
Wolverhampton
WV98 1LW

Ffôn **+44 (0)191 206 9390.**

# Ble i gael cymorth a chyngor am ddamweiniau diwydiannol

Os hoffech gael gwybodaeth gyffredinol am Fudd-dal Anabledd Anafiadau Diwydiannol cysylltwch â ni am gymorth drwy ffonio **0800 121 8379**. Gallwch ddod o hyd i'n holl fanylion cyswllt ar ddiwedd y nodiadau hyn.

Gallwch hefyd gysylltu â chanolfan gynghori fel Cyngor ar Bopeth.

Os oes gennych anawsterau lleferydd neu glyw gallwch gysylltu â ni drwy ddefnyddio ffôn testun ar **0800 169 0314**.

Os nad oes gennych eich system ffôn testun eich hun, efallai y byddwch yn gallu dod o hyd i un yn eich llyfrgell leol neu Cyngor ar Bopeth.

Os ydych yn byw yng Nghymru neu Loegr gallwch gael cyngor annibynnol a chyfrinachol am ddim am Fudd-dal Anabledd Anafiadau Diwydiannol a budd-daliadau eraill. Ewch i wefan Cyngor Cyfreithiol Sifil **www.gov.uk/civil-legal-advice** am ragor o wybodaeth.

I gael rhagor o wybodaeth am fudd-daliadau a gwasanaethau ewch i **www.gov.uk/browse/benefits**

# Manylion cyswllt Canolfan Budd-dal Anabledd Anafiadau Diwydiannol Barnsley

Anfonwch eich ffurflen gais wedi ei chwblhau yn ôl i'r cyfeiriad isod.

Dyma gyfeiriad post a rhif ffôn ein swyddfa Budd-dal Anabledd Anafiadau Diwydiannol os oes angen i chi gysylltu â ni

Barnsley IIDB Centre
Mail Handling Site A
Wolverhampton
WV98 1SY

## Rhif ffôn

0800 121 8379

## Cost galwadau

Mae galwadau i rifau 0800 am ddim o linellau tir a ffonau symudol.

.

Cadwch y nodiadau hyn mewn lle diogel. Nid oes angen eu dychwelyd gyda'r ffurflen.